


Dod i adnabod Ghana



Bedyddwyr Cymru'n cefnogi mamau yn Ghana

Ffeithiau am Ghana

Daearyddiaeth

Gwlad wedi ei lleoli ar arfordir deheuol Gorllewin Affrica yw Ghana. Gydag arwynebedd o 239,460 cilomedr sgwâr, mae Ghana yn debyg o ran maint i Brydain. Tir isel ydyw gan fwyaf, gyda'r mynydd uchaf, Mynydd Afadja, yn 885m (2,904 troedfedd) uwchben y môr (o'i gymharu â'r Wyddfa sy'n 1,085m). Gyda phoblogaeth o 2.2 miliwn mae ei phrif ddinas Accra wedi ei lleoli ar yr arfordir deheuol.

Hinsawdd drofannol sydd i Ghana. Mae'r rhanbarth dwyreiniol arfordirol yn gynnes a chymharol sych, y de-orllewin yn boeth a llaith, a gogledd Ghana yn boeth a sych. Cyfartaledd y tymheredd yn Ionawr yw 31°C ac ym Mehefin mae'n 27°C. Ni chofnodwyd bod y tymheredd erioed wedi bod yn is na 15°C. Cyfartaledd y glaw yn Ionawr yw 0.63 modfedd ac ym Mehefin 7.6 modfedd.

Hanes

Heddiw mae Ghana yn wlad annibynnol. Yn y gorffennol, fodd bynnag, roedd yn cael ei rheoli gan sawl wlad Ewropeaidd - y rhan fwyaf ohonynt wedi eu denu yno gan yr aur a ddarganfuwyd yno. Cyn i'r Ewropeaid lanio, nifer o freniniaethau llai oedd Ghana, a'r rhan fwyaf ohonynt yn deillio o'r Akaniaid. Y Portiwgaliaid oedd y cyntaf i gyrraedd yno o Ewrop. Hwy enwodd y rhanbarth oedd dan eu rheolaeth yn Costa do Ouro, neu'r Arfordir Aur. Dilynwyd hwy gan yr Iseldirwyr ac yna'r Llychlynwyr, ond yn 1874 daeth y

wlad o dan reolaeth yr Ymerodraeth Brydeinig. Daeth Ghana yn wlad rydd yn 1957.

Gwleidyddiaeth



Ers 1993 mae Ghana wedi bod yn wlad ddemocrataidd lwyddiannus. Mae sawl plaid wleidyddol yno ac mae'r etholiadau yn deg a rhydd. Cyn 1993, fodd bynnag, roedd yn ansefydlog iawn, gyda democratiaeth ar adegau a rheolaeth filwrol ar adegau eraill. Heddiw mae Ghana yn cymharu'n dda efo gwledydd eraill Affrica. Hi yw'r bumed wlad fwyaf democrataidd ar y cyfandir. Mae hefyd yn cymharu'n dda ble mae mynd i'r afael a llwgrwobrwyo dan sylw - eto, hi yw'r bumed orau ar y mater hwn.

Mae'r wlad wedi ei rhannu yn 10 rhanbarth gweinyddol. Y tri rhanbarth yn y gogledd sydd yn cael sylw ein hapêl, sef y Gorllewin Uchaf, y Dwyrain Uchaf a'r Gogledd. Mae poblogaeth y tri rhanbarth yn gyfanswm o 4.1 miliwn. Rhanbarth o laswellt safana efo ychydig o goed ydyw, a llai o fywyd gwylt nag oedd.

Cyfoeth

Mae Banc y Byd wedi gosod Ghana yn nosbarth incwm-canol-isel. Ymhlith y gwledydd eraill sydd yn y dosbarth hwn y mae'r India, Y Ffilipinau, a Fietnam. Economi gymysg sydd yno gyda sector gwaithgynhyrchu digidol sydd yn tyfu, yn cynnwys cydosod cyfrifiaduron tabled a ffonau symudol. Mae gan Ghana weledigaeth i fod y wlad gyntaf yn Affrica i gael ei chyfrif fel gwlad sydd wedi datblygu erbyn 2029.

Ghana a Chymru: cymharu â gwrthgyferbynnu

	Ghana	Cymru
Poblogaeth	26.3 miliwn	3.06 miliwn
Arwynebedd tir	238,000 km ²	20,779 km ²
Canran o'r boblogaeth sydd dan 14 oed	38%	17%
Ieithoedd	Saesneg (swyddogol) Akan, Ewe, Dagbani, a thros 70 arall.	Cymraeg, Saesneg
Crefydd	71.2% Cristion 17.6% Mwslim 5.2% Traddodiadol 5.2% dim 0.8% arall	57.6% Cristion 1.5% Mwslim 7.6% heb nodi 32.1% dim 1.2% arall
Gwariant ar iechyd	5.4% o GDP	9% o GDP
Disgwyliad hyd oes		
Gwryw	61 blwyddyn	78 blwyddyn
Benyw	64 blwyddyn	82 blwyddyn
Nifer o bobl efo HIV	250,000	2,245
Marwolaethau plant (marwolaethau ym mhob genedigaeth fyw)	37/1000	4/1000
Marwolaethau mamol (ym mhob genedigaeth fyw)	380/100,000	8/100,000